**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**13 Rhagfyr 2023**
**RHIF YR EITEM**

**ADRODDIAD I'R PENNAETH CYNLLUNIO, DIOGELU'R CYHOEDD A GWASANAETH CEFN GWLAD**

# ADOLYGU'R CYNLLUN DIRPRWYO CYNLLUNIO

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Rhoi amlinelliad i'r Aelodau o'r newidiadau a awgrymwyd i'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio. Os yw'r Pwyllgor Cynllunio yn cytuno, gweithredu'r fersiwn newydd o'r Cynllun Dirprwyo ar unwaith.

## 2. CEFNDIR

Y Cynllun Dirprwyo Cynllunio yw'r ddogfen sy'n nodi pa geisiadau cynllunio a phenderfyniadau cysylltiedig eraill y gellir eu gwneud ar lefel swyddog, a pha rai y bydd angen eu cyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad.

Mae hwn yn adendwm i gyfansoddiad y Cyngor sy'n dirprwyo gweithrediad swyddogaethau'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'r Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad.

Mae Cynllun Dirprwyo yn ofynnol er mwyn sicrhau effeithlonrwydd y broses ceisiadau cynllunio. Mae pob Cyngor yng Nghymru yn gweithredu Cynllun Dirprwyo fel bod y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio yn cael eu penderfynu ar lefel Swyddog. Hefyd, mae Cynllun Dirprwyo yn galluogi'r Pwyllgor Cynllunio i weithredu'n briodol a sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau cynllunio penodol o fewn y fforwm democrataidd hwnnw.

Mae'r newidiadau a awgrymwyd yn yr adolygiad hwn fel a ganlyn:

| Paragraff | Newid | Rheswm |
|---|---|---|
| Rhan 1 - paragraffau newydd 1.5.4 ac 1.5.5 | Newid yr ymatebion cyn ymgeisio ac Effaith Leol ar gynlluniau NSIP a DNS i benderfyniadau a arweinir gan swyddogion | Gan nad CSDd sy'n gwneud y penderfyniadau mewn perthynas â'r mathau hyn o brosiectau (Gweinidogion Cymru sy'n gwneud y penderfyniadau hyn), nid oes llawer o amser i ddarparu mewnbwn i'r prosesau. O ganlyniad, teimlir y byddai'n fwy effeithiol i Swyddogion gysylltu gyda'r Arweinwyr a'r Aelodau Lleol perthnasol i lunio unrhyw ymatebion yn hytrach na chyflwyno argymhellion i'r Pwyllgor Cynllunio. |
| Rhan 2 - gwaredu | Yn unol â'r newid uchod, dileu'r | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| paragraffau 2.1.9 a 2.1.10 | cyfeiriad at gynlluniau NSIP a DNS o'r penderfyniadau a arweinir gan y Pwyllgor. | |

Mae'r cynllun diwygiedig (Fersiwn 10) ynghlwm wrth yr adroddiad hwn i Aelodau (**Atodiad A**). Mae copi o'r cynllun presennol (Fersiwn 9) hefyd ynghlwm er mwyn cyfeirio ato (**Atodiad B**).

Ymgynghorwyd â'r Aelod Arweiniol Cynllunio a Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio cyn gwneud y newidiadau hyn a awgrymwyd.

**3. ARGYMHELLIAD**

Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn ac yn mabwysiadu'r newidiadau a awgrymwyd i'r Cynllun Dirprwyo.